**<u>Pwyllgor Diwylliant – CC-1-01 (p.2)</u>**

**Dyddiad :** 24 Ionawr 2001

**Amser :** 9.00am -12.30pm

**Lleoliad :** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**'A NEW FUTURE FOR COMMUNICATIONS', Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 12 Rhagfyr 2000.**

**Ymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth, gan Gabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru – *<u>drafft am sylwadau gan y Pwyllgor Diwylliant</u>*.**

**Rhagair**

1. Mae'r Cabinet Cymreig yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar y pwnc pwysig hwn.

2. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn yn erbyn cefndir o chwildro ym maes cyfathrebiadau digidol. Bydd y dechnoleg newydd yn fuan yn ei gwneud yn gyffredin bod pobl yn gwylio teledu drwy ffon symudol, a chyrchu'r rhyngrwyd drwy eu setiau teledu. Dywed y Llywodraeth yn ei Phapur Gwyn mai ei nod yw sicrhau bod gan bobl yn y DU ddewis o wasanaethau cyfathrebu sy'n amrywiol ac o ansawdd uchel. Dywed y Llywodraeth ei bod am weld marchnad ddeinamig a chystadleuol mewn cyfathrebiadau yn y DU, tra ar yr un pryd bod buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn cael eu diogelu. Yn y sefyllfa newydd, mae'r Llywodraeth yn cynnig symleiddio'r trefniadau rheoleiddio, a sefydlu un corff rheoleiddio, OFCOM, yn lle 5 asiantaeth bresennol (OFTEL, y Comisiwn Teledu Annibynnol, yr Awdurdod Radio, y Comisiwn Safonau Darlledu, a'r Asiantaeth Radiogyfathrebiadau).

3. Hoffem gynnig sylwadau yn arbennig ar faterion sy'n ymwneud â

- yr angen i sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu digidol ar gael i holl bobl Cymru

- gwerth cadw darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys teledu 'rhanbarthol' (gwasanaethau cenedlaethol i Gymru)

- strwythur OFCOM a'i gysylltiadau â Chymru

**Y sefyllfa gyfathrebu newydd yng Nghymru**

4. Ymhlith yr agweddau allweddol ar y sefyllfa gyfathrebu newydd yng Nghymru, y mae'r canlynol :

- Mae twf cychwynnol **teledu digidol** yn addawol. Bu perchnogaeth teledu digidol yn tyfu yn gyflymach na'r cyfartaledd yn y DU – amcangyfrir bod 28% o gartrefi â theledu digidol (ffigwr y DU yw 20%). Mae gwasanaethau rhaglenni newydd, gan gynnwys S4C Digidol, BBC Choice Wales, S4C2 a Choleg Digidol Cymru, wedi ymestyn y ddarpariaeth ddarlledu ar gyfer Cymru.

- Er hynny, mae mynediad i'r tri **phlatfform** ar gyfer teledu digidol (daearol, cebl a lloeren) yn anwastad. Mae gwasanaeth llawn chwech phlethiad teledu digidol daearol ond ar gael i 42% o gartrefi (disgwylir 56% erbyn diwedd 2001). I lawer o gartrefi (yn arbennig yn y Cymoedd a rhannau mawr o'r Gymru wledig) lloeren ddigidol yw'r unig opsiwn sy ar gael ar hyn o bryd. Mae teledu cebl ar gael ym mhrif drefi'r De, ond yn y Gogledd prin bod unrhyw arwydd o ddiddordeb o du'r diwydiant mewn ceblo hyd yn oed y trefi mwyaf.

- Mae'n dal yn destun pryder bod llawer o bobl yn derbyn **teledu o Loegr** – amcangyfrir bod hyd at 40% o gartrefi Cymru yn derbyn signalau o Loegr, am resymau hanesyddol a thechnegol.

- Yr hydref diwethaf cynhaliwyd ocsiwn o drwyddedau **Mynediad Di-wifr Penodedig Band Llydan** 28 Ghz. Ni chafwyd unrhyw geisiadau am drwyddedau yng Nghymru (er nad oedd y sefyllfa hon yn unigryw i Gymru). Mae hyn yn awgrymu nad yw Cymru yn ddeniadol i'r diwydiant, er gwaetha'r pris isel a ddefnyddiwyd yn yr ocsiwn. Byddai mynediad i'r sbectrwm 28 Ghz yn hwyluso mynediad cyflym i'r rhyngrywd ac aml-gyfryngau drwy radio. Mae Gweinidogion yn y Llywodraeth yn ystyried sut a phryd y dylid ail-hysbysebu trwyddedau mewn rhannau o'r DU lle na gwerthwyd trwyddedau.

- Mae 20% o'n poblogaeth ar hyn o bryd â **mynediad i'r rhyngrwyd**. Mae'r ffigwr yma yn

parhau i dyfu, ond mae'n dal yn llawer is na ffigwr y DU (32%). Yn 2000, roedd gan 83% o **fusnesau** yng Nghymru fynediad i'r Rhyngrwyd. Er bod hyn y welliant sylweddol ers 1999, mae Cymru yn dal tu ôl i weddill y DU.

**<u>Sylwadau manwl ar y Papur Gwyn</u>**

**YR ANGEN I SICRHAU BOD GWASANAETHAU CYFATHREBU DIGIDOL AR GAEL I HOLL BOBL CYMRU**

**Meini Prawf i'w bodloni cyn Diffodd Teledu Analog**

5. Rydym yn cytuno â'r tri maen prawf a gyhoeddwyd o'r blaen gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac a nodir yn y papur gwyn yn dilyn **para 3.3.3,** sef :

- Dylai pawb sy'n derbyn ar hyn o bryd y prif sianeli gwasanaeth darlledu u cyhoeddus ar ffurf analog fod yn gallu eu derbyn ar sustemau digidol ;

- Dylai troi at ddigidol fod yn opsiwn fforddadwy i'r mwyafrif llethol o'r boblogaeth; a

- Dylai fod gan 95% o ddefnyddwyr fynediad i gyfarpar digidol.

6. Er hynny, rydym yn credu bod yna achos am asesu'r meini prawf hyn, ar adeg briodol, mewn perthynas a Chymru yn benodol. Rydym yn argymell hyn fel ffordd o sicrhau na fydd nifer sylweddol mwy o gartrefi yng Nghymru nad ydynt yn bodloni'r meini prawf, o'u cymharu â gweddill y DU. Dyma fater lle gallai Pwyllgor Ymgynghorol Cymru OFCOM fod yn cynghori – pwyllgor yr ydym yn awgrymu i'r Llywodraeth ystyried ei sefydlu.

**Cystadleuaeth o ran platfformau teledu digidol**

7. Mae'r Llywodraeth wedi gosod nod o 'Ddatblygu a chynnal marchnad ddeinamig' ym myd cyfathrebu (**para 2.2.1**). Rydym yn awgrymu y dylai'r Llywodraeth ac OFCOM ystyried ymhellach yn y cyswllt hwn, y mynediad i wahanol blatfformau teledu digidol (daearol, cebl, lloeren ac eraill fel y bont yn datblygu) o fewn ardaloedd penodol. Ymddengys i ni fod y ffaith mai dim ond un platfform (lloeren) sydd ar gael mewn rhannau helaeth o Gymru, yn codi cwestiynau ynghylch cystadleuaeth, mynediad, a chostau i wylwyr ac i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn argymell fod y Llywodraeth yn rhoi sylw pellach i hyn.

**Cronfa Gwasanaeth i Bawb ar gyfer cyfathrebiadau**

8. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth (ym **mhara 3.7**) i sicrhau bod gwasanaethau

ffon, a ddefnyddir gan fwyafrif y boblogaeth, ac sy'n hanfodol i gynhwysedd cymdeithasol ac economaidd, yn dod ar gael i bawb, ar gais rhesymol, ac am bris fforddadwy. Mae gofyn i BT a Kingston Communications ill dau darparu gwasanaethau i bawb, ac mae'r gofynion hyn yn sicrwydd pwysig i bobl sydd ar incwm isel ofynion ac yn byw mewn ardaloedd diarffordd. Rydym yn nodi y bydd yna ymchwil a monitro yn flynyddol, er mwyn ystyried ffigurau ynghylch mynediad i'r lefelau uwch o wasanaethau newydd, ac unrhyw sefyllfaoedd anghyfartal a all godi. Os bydd sefyllfa felly, un ffordd bosibl o fynd i'r afael a hi fyddai drwy ymestyn y gofynion gwasanaeth i bawb. Pe bai hyn yn arwain at gostau sylweddol ar gyfer y darparwyr sy'n darparu i bawb, bydd gan OFCOM y per i greu Cronfa Gwasanaeth i Bawb, gan rannu ymhlith yr holl fusnesau yn y maes y costau o gwrdd a'r gofynion estynedig. Pe bai hyn yn digwydd, fe allai ddod â manteision sylweddol i Gymru, lle nad yw parthau o'r wlad ar hyn o bryd yn ddeniadol yn economaidd i'r darparwyr sydd am gyflwyno gwasanaethau uwch.

**Rheoli'r Sbectrwm Radio**

9. Bydd gan OFCOM gyfrifoldeb am drwyddedu sbectrwm yn y sector cyfathrebiadau. Bydd hefyd yn gyfrifol am reoli defnyddio'r sbectrwm radio gan gyrff heblaw y lluoedd arfog, ac am awdurdodi a thrwyddedu gwasanaethau darlledu a thelathrebu, ac am weithgareddau eraill sydd ar hyn o bryd yn llaw cyrff eraill. Bydd yn lleihau'r baich o reoleiddio sydd ar fusnesau ym myd cyfathrebu, gan eu galluog, mewn llawer o achosion, i ddefnyddio awdurdodau cyffredinol yn hytrach na thrwyddedau unigol.

10. Y sbectrwm radio yw'r deunydd sylfaenol pennaf i'r cyfryngau telathrebu newydd. Defnyddir ef ar gyfer darlledu daearol ac o loeren, ar gyfer ffons symudol ac ar gyfer technoleg mynediad penodedig di-wifr. Bydd dyfodiad y rhwydweithiau digidol yn ei gwneud yn bosibl cyflwyno llawer mwy o gynnwys drwy'r un faint o sbectrwm. Serch hynny, mae sbectrwm yn dal yn adnodd prin. Mae ymchwil yn awgrymu mai o du telathrebu symudol y bydd y twf mwyaf yn y galw am sbectrwm yn dod.

11. Rydym yn disgwyl y bydd OFCOM yn mynd ati i ddosrannu sbectrwm mewn modd trefnus a strategol, gan barchu buddiannau Cymru.

**GWERTH CADW DARLLEDU GWASANAETH CYHOEDDUS, GAN GYNNWYS TELEDU 'RHANBARTHOL' (GWASANAETHAU CENEDLAETHOL I GYMRU)**

12. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y papur gwyn yn datgan o'r newydd gwerth darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn credu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru (BBC Cymru, HTV Cymru ac S4C) wedi gwneud cyfraniad enfawr at fywyd cyhoeddus Cymru, ac maent yn parhau i wneud hynny. Rydym yn croesawu bod y Llywodraeth yn datgan o'r newydd ym **mhara 4.4.9** bwysigrwydd gwasanaeth S4C yn y Gymraeg. Rydym yn credu bod darlledu yn Gymraeg, gan S4C, BBC Cymru ac eraill, yn chwarae rhan fawr o ran cefnogi'r iaith Gymraeg a chynnal y defnydd ohoni.

**Rhaglenni Rhanbarthol 'a fwriedir'**

13. Rydym yn croesawu ac yn tanlinellu pwysigrwydd yr egwyddor ym **mhara. 3.3.2** y dylai pobl, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod yn gallu *'derbyn y rhaglenni rhanbarthol a fwriedir i'w cymuned'*. Rydym yn nodi bwriad y Llywodraeth i ddechrau trafodaethau gyda'r darlledwyr priodol yngln â'r mater hwn, ac rydym yn gofyn i'r Llywodraeth archwilio yn ofalus y sefyllfa ym mhob rhan o Gymru.

14. Yn ein barn ni, mae eisiau astudio nifer o ffyrdd o ddatrys hyn :

(a) ar loeren ddigidol, mae BBC Cymru ac S4C yn barod wedi gwneud trefniadau effeithiol i sicrhau bod eu gwasanaethau nhw yn cael eu darparu i gartrefi sydd â chod post Cymreig. Fe ddylai'r Llywodraeth gefnogi parhad y trefniadau hyn, a'u hymestyn i HTV Cymru, os a phan ddaw Channel 3 ar gael ar loeren ddigidol.

(b) yn yr ardaloedd lle mae teledu digidol daearol ar gael, gall fod angen marchnata'r ffaith bod y signalau digidol ar gael o drosglwyddyddion yng Nghymru – fel bod pawb yn deall, er enghraifft, bod S4C a Channel 4 ill dau ar gael o drosglwyddyddion Cymru. Fe ddylai'r Llywodraeth archwilio ffyrdd o berswadio pobl i ailgyfeirio eu herialau presennol (gall hyn olygu gwariant ac anghyfleustra iddynt).

c) Opsiwn arall, o bosib, pe bai i fentrau marchnata o'r fath fethu, fyddai bod y Llywodraeth yn ystyried yr opsiwn o ddarlledu, wedi diffodd analog, signalau digidol Cymreig o drosglwyddyddion Mendip, Ridge Hill, Wrekin a Winter Hill (gan ddefnyddio sbectrwm a ryddheir drwy'r diffodd). Mae sefyllfa rhywfaint yn debyg yn bodoli yn barod mewn perthynas a darlledu gwasanaethau i'r Alban o drosglwyddyddion Sandale a Caldbeck yn Lloegr.

**Targedau Cynhyrchu Rhanbarthol**

15. Rydym yn croesawu'r son ym **mhara 5.7.1.** y dylai OFCOM osod a monitro targedau am gynhyrchu rhanbarthol. Rydym yn argymell y dylai targedau o'r fath fod yn ymwneud a chynhyrchu ar gyfer rhwydweithiau'r DU, yn ogystal a chynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd lleol yn unig. Rydym yn falch o gydnabod yma yr ymrwymiad a gafwyd yn barod gan y BBC i fuddsoddi mewn rhagor o gynhyrchu gan BBC Cymru, i gynulleidfaoedd Cymreig ac ar gyfer gwylwyr ar draws y DU.

**STRWYTHUR OFCOM A'I GYSYLLTIADAU A CHYMRU**

**Cysylltiadau OFCOM â'r Cynulliad Cenedlaethol**

16. Rydym yn croesawu **para 8.7** o'r papur gwyn, sy'n datgan y bydd y rheoleiddiwr newydd, OFCOM, yn meithrin cysylltiadau â phwyllgorau priodol y Cynulliad, a Chabinet y Cynulliad, ac yn ymgynghori â nhw. Mae'n dda gennym fod sylw yn cael ei roi i ddatganoli, er bod rheoleiddio cyfathrebiadau yn parhau yn bwnc sydd heb gael ei ddatganoli.

**Strwythur OFCOM**

17. Rydym yn croesawu'r cyfeiriad ym **mhara 8.6.2** at ddymuniad y Llywodraeth i sicrhau fod y corff rheoleiddio newydd, OFCOM, yn cael ei drefnu fel bod sylw yn cael ei roi i *"fuddiannau'r gwahanol rannau o'r DU*". Rydym yn credu y dylai hyn fod yn nod sy'n gymwys i holl waith OFCOM, ac nid yn unig i faterion rheoleiddio cynnwys.

18. Bydd OFCOM yn cymryd lle rheoleiddwyr statudol presennol (y Comisiwn Teledu Annibynnol, yr Awdurdod Radio, a'r Comisiwn Safonau Darlledu). Cynrychiolir Cymru, fel gwledydd eraill Prydain, ar fyrddau y cyrff hyn. Rydym yn argymell y dylai Bwrdd OFCOM, yn yr un modd, fod yn cynnwys Aelod sy'n cynrychioli buddiannau Cymru. Rydym yn awgrymu y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol benodi'r **Aelod dros Gymru.**

19. Er mwyn i OFCOM gael datblygu dealltwriaeth agos o faterion Cymru; fod yn gallu meithrin y cysylltiadau a'r ymgynghori sydd i fod a'r Cynulliad; a bod yn gallu cefnogi'n briodol yr Aelod dros Gymru ar y Bwrdd a awgrymir gennym, rydym yn argymell y dylai OFCOM sefydlu **Swyddfa genedlaethol i Gymru**, a sicrhau adnoddau priodol iddi.

20. Yn yr un modd, rydym yn argymell y dylai fod cynrychiolydd o Gymru ar y **Panel Defnyddwyr** y mae'r papur gwyn yn cynnig ei sefydlu i gynghori OFCOM (**para 7.5**).

21. Bydd OFCOM hefyd yn cymryd lle OFTEL, sydd ar hyn o bryd yn elwa o gyngor *Pwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Delathrebiadau* (mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn elwa o gyngor y pwyllgor hwn). Ar adeg sefydlu OFCOM, rydym yn argymell y dylid sefydlu **Pwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Gyfathrebu** newydd, fydd yn edrych ar yr holl ystod o gyfrifoldebau a fydd gan OFCOM dros gyfathrebiadau.